



Office for Product
Safety & Standards



Prynwch deganau'n ddiogel y Nadolig hwn

**Dilynwch ein gwiriadau diogelwch
i brynu teganau'n ddiogel y
Nadolig hwn.**

Gwiriadau diogelwch wrth siopa am deganau

Mynnwch wybod pwy sy'n gwerthu

Ble bynnag y byddwch chi'n siopa, cofiwch fod enw da yn cyfrif. Ydy'r gwerthwr yn cael ei gydnabod yn eang am deganau diogel a dibynadwy?

Mynnwch gymaint o wybodaeth am y gwerthwr ag y gallwch, yn enwedig os ydych yn prynu o farchnad ar-lein.

Nid popeth sy'n cael ei werthu ar lwyfan ar-lein sy'n cael ei gyflenwi ganddyn nhw. Os nad yw'r cyflenwr ei hunan wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig, efallai y byddwch yn wynebu mwy o risg.

Darllenwch y rhybuddion a'r cyfarwyddiadau bob amser



Rhaid i deganau ddangos marciau clir gyda chyfyngiadau oedran, wedi'u seilio ar risgiau fel peryglon tagu. Dilynwch yr argymhellion oed bob amser.

Ystyriwch anghenion arbennig



Gallai plant ag anghenion arbennig fod yn fwy agored i niwed, felly cadwch hyn mewn cof wrth siopa.

Osgowch deganau sydd â rhannau bach



Gall rhannau bach greu risg o dagu.

Chwiliwch am berygl tagu mewn cwllwm



Gall rhubanau rhydd ar deganau a gwisgoedd greu risg i blant ifanc.

Gwiriwch fod y teganau wedi'u bwriadu ar gyfer plant



Gall magnetau edrych fel teganau. Cadwch nhw draw oddi wrth blant.

Nadolig 2021

Cymharwch y gwerthwyr



Gall bargeinion fod yn rhy dda i fod yn wir. Cymharwch bris y tegan â phrisiau gwerthwyr eraill. Os yw'n ffracsiwn yn unig o'r gost, mae'n debygol o fod yn un ffug.

Chwiliwch am fatris botwm



Gofalwch fod unrhyw fatris botwm mewn tegan yn ddiogel y tu ôl i fflap sydd wedi'i sgriwio i lawr.

Gwiriwch ba gynhyrchion sydd wedi'u galw'n ôl



Chwiliwch i weld a ydy'r eitem rydych chi'n ei phrynu wedi cael ei galw'n ôl yn [productrecallcampaign.gov.uk](https://www.productrecallcampaign.gov.uk)

Gwiriwch cyn lapio



Rhaid i deganau ddangos marciau clir gyda chyfyngiadau oedran, wedi'u seilio ar risgiau fel peryglon tagu. Dilynwch yr argymhellion bob amser.

